FFORWM MYNEDIAD LLEOL WRECSAM

COFNODION A GADARNHAWYD

o'r pedwerydd cyfarfod ar bymtheg a gynhaliwyd yn Neuadd y Dref, Wrecsam ar 3 Chwefror 2006

01/06 PRESENOLDEB AC YMDDIHEURIADAU

Yn bresennol:

Y LLYWYDD
John Marchant Ysgrifennydd y Fforwm

(Yn dilyn eitem 02/06, cymerodd Ieuan Lewis, y Cadeirydd, rôl y Llywydd ac Emma Haldane, rôl Ysgrifennydd y Fforwm).

CADEIRYDD
Ieuan Lewis

YSGRIFENNYDD
Emma Haldane

AELODAU

John Cooper-Poole
Mike Crawshaw
Sue Gittins
Gwynfor Jones
John Marchant
Mavis McBride
Clive Menzies
Margaret Murphy
Mabyn Pickering
Karl Prakel
Edward Wardle
Gerald Moss (ymddiheurodd am gyrraedd ar ôl yr etholiad)

MYNYCHWYR NAD OEDDENT YN AELODAU
Martin Howorth
Paul Humphries
Alun Price (CCGC)
John Pugh

Ymddiheuriadau: Shelagh Roberts, Tim Stevens

02/06 ETHOL CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD

Cadarnhaodd y Llywydd fod pleidleisiau gan Shelagh Roberts a Gerald Moss wedi'u derbyn trwy'r post.

Rhoddodd yr ymgeiswyr, Ieuan Lewis a Clive Menzies eu cyfeiriadau etholiad i'r fforwm.
Etholwyd Ieuan Lewis yn Gadeirydd a Clive Menzies yn Is-Gadeirydd.

Anerchodd Ieuan Lewis y fforwm trwy ddiolch am eu cefnogaeth.
Diolchodd hefyd i Mike Edwards, is-gadeirydd blaenorol y fforwm, Colin Simpson, o Adran Cludiant a Rheoli Asedau'r Cyngor, am ei gyfraniadau amhrisiadwy ac i John Marchant am ei holl help a'i gefnogaeth dros y tair blynedd ddiwethaf.

03/06 NEWID YSGRIFENNYDD AC AELODAETH

Camodd John Marchant i lawr fel ysgrifennydd a chymryd ei le ar y fforwm fel cynrychiolydd y cyngor.

Cymerodd Emma Haldane ei lle fel ysgrifennydd newydd.

04/06 DEFNYDDIO RECORDWYR TAPIAU YNG NGHYFARFODYDD Y FFORWM

Gofynnodd y Cadeirydd i'r aelodau a oeddent yn fodlon i'r recordydd tapiau gael ei ddefnyddio i gadw cofnodion y fforwm. Roedd Mabyn Pickering yn pryderu am faterion gwarchod data.

Cytunwyd y dylid darllen datganiad agoriadol ar ddechrau pob cyfarfod yn y dyfodol, yn esbonio y byddai'r recordydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer dibenion cofnodi ac y byddai unrhyw dapiau a ddefnyddir yn cael eu dileu ar ôl cadarnhau'r cofnodion.

Cytunwyd: Parhau i ddefnyddio recordydd tapiau.

05/06 CROESO I AELODAU NEWYDD A CHYFLWYNIADAU

Rhoddodd yr ysgrifennydd wahoddiad i aelodau newydd a fethodd y cyfarfod diwethaf i gyflwyno eu hunain.

Rhoddodd un aelod, Mike Crawshaw, gyflwyniad byr o'i gefndir, ei brofiad a'i ddiddordebau sy'n berthnasol i'r fforwm.

06/06 MATERION SY'N CODI O GOFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF AR 25 TACHWEDD 2005

Dosbarthwyd y cofnodion drafft i aelodau ar 30 Rhagfyr 2005 a rhoddwyd pythefnos iddynt roi eu sylwadau. Nid oedd angen eu diwygio a chadarnhawyd bod y cofnodion yn gywir ar 18 Ionawr 2006.

(29/05) – Ffyrdd bach. Cafwyd ymateb gan John Bradbury, Prif Swyddog yr Amgylchedd. **(Trafodwyd yn eitem 08/06 yr agenda)**

(35/05) – Cysylltu â Groundwork ynglŷn â'r giatiau

Yn dilyn y cyfarfod diwethaf, nodwyd y cysylltwyd â Groundwork ynglŷn â'r giatiau ym mis Awst ac roedd yr ysgrifennydd ar ddeall y byddai Swyddog Groundwork yn cysylltu ag Andrew Kelly. Dywedodd Groundwork y dylai'r holl waith i adfer y giatiau fod wedi'i gwblhau erbyn diwedd mis Tachwedd.

(39/05) – Ystâd Wynnstay – cais am gyfarfod.

Gweithredu: Ysgrifennydd i chwilio am ymateb.

(60/05) – Yn y cyfarfod diwethaf, awgrymodd un aelod, Edward Wardle, y dylai'r fforwm drafod amser gorffen ar gyfer y cyfarfodydd.

Cytunwyd: Bydd y cyfarfodydd yn dechrau am 1.30pm ac yn gorffen am 4.00pm.
I'w monitro.

07/06 ADRODDIAD YR YSGRIFENNYDD

- Dosbarthwyd y llyfryn 'Chwa o Awyr Iach' a'r 'Newyddlen Mynediad a Hamdden' i'r aelodau ar ddechrau'r cyfarfod.
- Amlinellodd yr Ysgrifennydd pa gostau y byddai'r Fforwm yn eu hawlio. Rhaid cadw cofnodion llawn a rhaid dangos derbynebau pan fo hynny'n briodol. Bydd y ffurflenni hawlio ar gael ym mhob cyfarfod.
- **Monitro'r Fforwm Mynediad Cenedlaethol**
  Cytunodd Clive Menzies i fonitro busnes y Fforwm Mynediad Cenedlaethol. Byddai Sue Gittins yn monitro yn ei absenoldeb.

- **Gweithdy Graeanu'r Gaeaf**
  Gwahoddwyd y fforwm i fynychu Gweithdy Polisi Cynnal a Chadw Bwrdeistref Sirol Wrecsam.
  Cytunodd Clive Menzies y byddai'n mynychu ar ran y fforwm.
- **Canllawiau Llwybrau newydd arfaethedig**
  Arddangoswyd fersiynau drafft o'r canllawiau llwybrau arfaethedig i'r holl aelodau eu gweld.
- **Grŵp Llywio Rhwydwaith Gwyrdd**
  Nid oedd gan y Grŵp Llywio gynrychiolydd yn bresennol yn y fforwm bellach.
  Cytunodd Mabyn Pickering weithredu fel cynrychiolydd y fforwm ar gyfer y grŵp a byddai Sue Gittins yn mynychu yn ei habsenoldeb.
  Gweithredu: Yr Ysgrifennydd i roi gwybod i Malcolm Phillips, Rheolwr Polisi Cynllunio.

08/06 CERBYDAU MODUR YNG NGHEFN GWLAD

Yn y cyfarfod diwethaf, gofynnodd un aelod, Tim Stevens, p'un a fyddai'r FfMLl yn gysylltiedig â'r broses o ddarganfod ardal ddynodedig ddiogel ar gyfer cerbydau maes a p'un a oedd y cynulliad wedi cyhoeddi papur ymgynghori. Cadarnhaodd John Marchant nad oedd papur ymgynghori wedi'i dderbyn. Credwyd bod sylw gan aelod o Gynulliad Cymru ynghylch bodolaeth papur o'r fath wedi'i gam-ddehongli.
Credai Gwynfor Jones y dylai ardaloedd arbennig gael eu dynodi ar gyfer plant ar feiciau modur bach ac roedd y mater yn peri pryder i'r mwyafrif o aelodau.
Gan nad oedd Tim Stevens yn bresennol a bod ganddo ddealltwriaeth ychwanegol o'r pwnc, cytunwyd y byddai'n cael ei drafod yn y cyfarfod nesaf.

(29/05) – Ffyrdd bach – Ymateb gan Brif Swyddog yr Amgylchedd.
Wrth ymateb i lythyr John Bradbury am waith trwsio ar ffyrdd bach, roedd Sue Gittins yn pryderu bod gofyn i wirfoddolwyr ddarparu eu hyswiriant eu hunain a oedd yn gostus iawn. Ymddengys mai Yswiriant Gwirfoddolwyr Cadwraeth yr Ymddiriedolaeth Brydeinig oedd yr opsiwn orau, ond mae'r gost wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Hysbysodd yr aelodau fod gan Gyngor Sir Powys gydlynydd gwirfoddolwyr wedi'i benodi i hyfforddi timau i wneud gwaith cynnal a chadw.
O'r llawr, dywedodd yr Arweinydd Tîm Rhanbarthol, Paul Humphreys, o'r Grŵp Mynediad Hamdden Cefn Gwlad (CRAG) bod Cynghorau yn gyndyn o ddefnyddio grwpiau gwirfoddolwyr. Dywedodd fod CRAG yn darparu eu hyswiriant atebolrwydd cyhoeddus a'u llafur eu hunain a bod y cynghorau yn darparu deunyddiau ar gyfer gwaith yr oedd angen ei gwblhau.

Cadarnhaodd John Marchant fod Groundwork yn gwneud rhywfaint o waith prosiect, fel arfer pan fo grantiau ar gael gan CCGC ac eraill, ond nid ydynt yn defnyddio gwirfoddolwyr. Roedd ef am atgoffa'r aelodau bod Tim Stevens wedi cynnig rheoli a threfnu grŵp gwirfoddolwyr yn y cyfarfod diwethaf. Awgrymodd John Cooper-Poole y dylid siarad ag AVOW gan fod ganddynt ganolfan wirfoddolwyr a phrofiad o weithio gyda'r prosiectau hyn.
Cytunwyd:

- **Y fforwm i anfon manylion CRAG at Tim Stevens i ddilyn y mater.**
- **Yr Ysgrifennydd i gysylltu ag AVOW am wybodaeth bellach i'w drafod yn y cyfarfod nesaf.**

- **Y Cyngor i gysylltu â Chynghorau Cymunedol penodol mewn ardaloedd lle mae problemau i ddarganfod pa waith sydd angen ei gwblhau.**

09/06 CYNLLUN GWELLA HAWLIAU TRAMWY

Adroddodd Martin Howorth, Rheolwr Parciau, Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy am gynnydd y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy.
Cadarnhaodd fod Wrecsam yn gwneud yn dda iawn o'i gymharu â Sir y Fflint a Sir Ddinbych.
Cynhaliwyd gweithdai ym mis Rhagfyr ar gyfer aelodau a mynchodd llawer ohonynt. Dros y mis nesaf, byddai ymgynghorwyr 'Adnoddau ar gyfer Newid' yn dechrau ysgrifennu adroddiad asesu. Yn ei hanfod, byddai hwn yn edrych ar gyflwr y rhwydwaith. Byddai'r arolwg 16% o'r rhwydwaith hawliau tramwy yn cael ei ymgorffori a byddai cyflwr y Map Terfynol a'r 'Ffyrdd Colledig' yn cael eu hystyried.
Cadarnhaodd y dylai drafft cyntaf y cyfnod asesu fod yn barod erbyn y cyfarfod FfMLl nesaf er mwyn i aelodau edrych arno.
Nodwyd bod aelodau yn fodlon â chynnydd y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy.
Cytunwyd: Trafod y drafft yn y cyfarfod nesaf.

Gofynnodd Mike Crawshaw a oedd arwyddion yn cael eu cynnwys yn y CGHT. Roedd ef wedi cael problemau ar ei dir wrth i gerddwyr grwydro oddi ar y llwybrau cerdded. Cadarnhaodd Martin Howorth fod y CGHT yn edrych ar faterion a thargedau penodol a wneir ar y ffordd y gellid gwella Hawliau Tramwy. Gellir edrych ar unrhyw broblemau unigol a geir i weld a ydynt yn cyd-daro â materion eraill.
Cadarnhaodd John Marchant fod yr awdurdod wedi cael cyngor i beidio â gosod arwyddion 'Diwedd Tir Mynediad' mewn mannau lle mae llwybrau cyhoeddus yn parhau oherwydd y gall fod yn gamarweiniol. Roedd gan yr awdurdod arwyddion y gellid eu gosod yn ôl yr angen.

10/06 ADRODDIADAU GAN Y CEIDWAID MYNEDIAD

Cyflwynodd Sion Roberts, Ceidwad Mynediad, ei hunan i'r fforwm. Rhoddodd adroddiad am y gwaith a gyflawnwyd yn y sir dros y deufis diwethaf:

- Roedd gwaith wedi dechrau ar lwybrau cerdded Dyffryn Ceiriog, i osod camfeydd, giatiau a physt i ddangos y ffordd ar lwybrau amrywiol.
- Bydd 25 o arwyddbyst newydd yn cael eu codi o amgylch y sir yn fuan. Gosodir fflagiau newydd yn lle'r rhai sydd wedi'u difrodi neu sydd wedi treulio er mwyn dangos cyrchfannau a phellterau.
- Mae gwaharddwyr beiciau modur wedi'u harchebu ar gyfer llwybrau cerdded amrywiol. Mae disgwyl i un gael ei godi ger Stryd y Capel yn Rhosllannerchrugog yn fuan.
- Cynhaliwyd y daith dywysedig gyntaf allan o 6 a drefnir gan yr Is-adran Hawliau Tramwy ym mis Ionawr o amgylch Coed Nant y Ffrith, Bwlchgwyn, roedd 15 o bobl yn cymryd rhan.
- Codwyd pont droed chwe metr ar lwybr cerdded rhif 20 yn Marchwiel. Mae hwn bellach wedi cwblhau prosiect llwybr cerdded Marchwiel. Mae prosiect llwybrau cerdded llai yn cael ei gynnal ar hyn o bryd ar lwybrau cerdded o amgylch ardal Plas Bennion ger Penycae.
- Mewn adroddiad a baratowyd gan Dave Smith, Swyddog Mynediad Agored a Gwella, ni adroddwyd problemau arwyddocaol o ran cerddwyr

ac ni chafwyd unrhyw geisiadau am gyfyngiadau neu waharddiadau ar dir mynediad.

- Roedd Cyngor Wrecsam wedi llwyddo i gael grantiau mynediad ychwanegol ac roedd y gwaith yn mynd rhagddi yn dda. Erbyn hyn mae swm sylweddol o rwydwaith mynediad mewnol yn cyrraedd ac yn rhagori ar y safonau cenedlaethol.

Hysbysodd John Marchant yr aelodau y gellir gweld pa deithiau cerdded sydd wedi'u trefnu ar wefan Bwrdeistref Sirol Wrecsam.
Roedd Sue Gittins yn falch o glywed bod arwyddion yn cael eu gwella.
Gofynnodd Clive Menzies a oedd gan y fforwm bolisi ynghylch dodrefn ac roedd yn awyddus i weld giatiau mochyn yn cael eu cynnig i annog mynediad i bobl anabl i gefn gwlad. Cadarnhaodd John Marchant fod polisi 'bwlch - giât - camfa' mewn lle. Esboniodd y byddai camfa yn cael ei gosod pe na bai modd gosod 'bwlch' neu 'giât'.
Roedd Gwynfor Jones yn pryderu bod rhai camfeydd ar y Teithiau Cerdded ar y We a gyhoeddir yn y sir wedi'u gosod yn anghywir. Gofynnodd John Marchant p'un a fyddai modd darparu manylion iddo ef neu Sion ar ôl y cyfarfod. Cadarnhaodd mai cyfrifoldeb perchennog y tir yw'r camfeydd, ond byddai camfeydd ar lwybrau cerdded a hyrwyddir yn cael eu cynnal a'u cadw gan y Cyngor.
Canmolodd Gwynfor Jones y Cyngor am eu gwefan llawn gwybodaeth sy'n hyrwyddo teithiau cerdded gwledig www.wrexham.gov.uk/walks.
Diolchodd John Marchant iddo am ei sylwadau calonogol a byddai'n eu hanfon ymlaen at dîm y we'r Cyngor a'i staff.

11/06 CYNGOR CEFN GWLAD CYMRU

Rhoddodd Alun Price o'r Cyngor Cefn Gwlad ei adroddiad diweddaraf i'r fforwm.
Dywedodd mai ychydig iawn o waharddiadau a chyfyngiadau a gafwyd yng ngogledd Cymru gyfan.
Wrth ymateb i gwestiwn Karl Prakel am gyfyngiad ar y Berwyn, cadarnhaodd Alun Price mai cyfyngiad dros dro ydoedd o ganlyniad i saethu ffesantod mae'n debyg. Cyhoeddir unrhyw waharddiadau sydd mewn grym ar wefan CCGC.

Gofynnodd Clive Menzies p'un a oedd grantiau a roddir i awdurdodau lleol yn cael eu diogelu. Cadarnhaodd Alun Price eu bod yn cael eu pridiannu. Archwilir y defnydd a wneir o grantiau a roddir i awdurdodau lleol.

Daethpwyd â phecyn gwybodaeth y 'Côd Cefn Gwlad' i sylw'r aelodau. Roeddent yn credu bod y pecyn yn llawn gwybodaeth ac yn fanteisiol i aelodau'r fforwm, ysgolion a ffermwyr ifanc.
Gweithredu: Yr Ysgrifennydd i wneud cais am gopïau ar gyfer y cyfarfod nesaf.

12/06 ADRODDIADAU BLYNYDDOL

Gofynnodd y cadeirydd a oedd aelodau'n hapus â'r adroddiadau blynyddol drafft a gynhyrchwyd.
Credai Clive Menzies nad oedd yr adroddiadau yn rhoi llawer o wybodaeth. Esboniodd John Marchant nad oedd y fforwm wedi cynhyrchu adroddiadau blynyddol i'r blaen ac mai dim ond crynodeb oeddent o'r hyn a drafodwyd. Cyhoeddwyd cofnodion cyfarfodydd y fforwm yn y gorffennol ar wefan y Cyngor www.wrexham.gov.uk/laf.

Credai John Cooper-Poole y dylai adnoddau fod ar gael i gynhyrchu'r adroddiadau gan ei fod yn ofyn statudol. Credai Sue Gittins y dylai adroddiadau blynyddol y dyfodol gynnwys mwy o wybodaeth.

Cytunwyd: Paratoi Adroddiadau Blynyddol i'w cyflwyno i CCGC.
Clive Menzies i gynhyrchu adroddiadau'r dyfodol.

13/06 CYDBWYSEDD Y FFORWM

Roedd rhai aelodau o'r farn bod diffyg arbenigedd yn y fforwm mewn rhai meysydd. Roedd lle i wneud newidiadau os yn angenrheidiol ar gyfer y cydbwysedd, ond nid oedd y cyngor yn awyddus i gael y mwyafswm o aelodau ac yn hapus â'r cydbwysedd presennol.

Cadarnhaodd John Marchant mai 22 oedd y mwyafswm a ganiateir yn y fforwm ac roedd 16 o aelodau yn bodoli ar hyn o bryd.

Gofynnodd i'r cadeirydd am anfon llythyr at yr holl aelodau sy'n ymddeol o'r FfMLl, gan ddiolch iddynt am eu holl waith caled a'r cyfraniadau a wnaethpwyd i'r fforwm dros y 3 blynedd diwethaf.

Gweithredu: Yr Ysgrifennydd i ysgrifennu at aelodau sy'n ymddeol.
Cytunwyd: Cytunodd yr aelodau i fonitro'r cydbwysedd dros y misoedd nesaf.

14/06 EITEMAU AR GYFER YR AGENDA NESAF

Awgrymwyd yr eitemau canlynol gan yr aelodau:

1. Ceisiadau cynllunio
2. Gorchmynion Addasiadau Mapiau Terfynol
3. Materion cyllidebau
4. Cydbwysedd y fforwm

15/06 DYDDIAD A LLEOLIAD Y CYFARFOD NESAF

Awgrymodd y cadeirydd y dylai'r fforwm drafod lleoliadau'r dyfodol yn y cyfarfod nesaf.

Dydd Gwener, 5 Mai 2006 am 1.30pm yn Ystafell Pwyllgor 3, Neuadd y Dref.

Daeth y cyfarfod i ben am 4.00pm.